Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**
North Wales **Together**

*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anabledau Dysgu*
*Seamless services for people with Learning Disabilities*

# **Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd:** Gwasanaethau di-dor i bobl ag Anableddau Dysgu

## **Bywyd ar ôl ysgol:** y daith ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu yng Ngogledd Cymru

Crynodeb Gweithredol
Tachwedd 2021


Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council
Conwy
Cyngor Sir Ddinbych Denbighshire County Council
Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council
Gwynedd
Wrexham Wrecsam
GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board
Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru
North Wales Social Care and Well-being Services Improvement Collaborative

# CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o ymchwil a wnaed fel rhan o Raglen Drawsnewid Anableddau Dysgu Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd i baratoi ar gyfer gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ALNET (Cymru) 2018 (y 'Ddeddf')). Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer fframwaith statudol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'n disodli deddfwriaeth bresennol ar anghenion addysgol arbennig (AAA) ac asesu plant a phobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

Mae'r gwaith ymchwil yn archwilio pa mor dda mae llwybr trawsnewid presennol y rhanbarth o addysg ysgol uwchradd i ddewisiadau ôl-16 yn diwallu anghenion datblygu unigol a dyheadau pobl ifanc ag anableddau dysgu, gan ganolbwyntio'n fwy penodol ar rai sydd ag anghenion mwy cymhleth.

Mae'r adroddiad yn arbennig o amserol wrth i'r rhanbarth baratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf gan ddechrau ym mis Medi 2021, fesul cam dros y tair blynedd nesaf.

Dylai ein huchelgais gynnwys llawer mwy na systemau a phrosesau mwy hwylus.

Yr elfen ganolog yma yw'r angen i sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu yn gallu cymryd eu lle fel dinasyddion llawn a gweithredol.

Mae'r cyfnod hwn o ganol yr arddegau i ganol yr ugeiniau yn ffenestr allweddol i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu paratoi a'u cefnogi yn llawn ar gyfer bywyd.

Mae angen i ni fod â disgwyliadau llawer uwch o ran ein parodrwydd, fel cymdeithas, i ddod o hyd i ffyrdd o leihau'r stigma a'r eithrio cymdeithasol o ran anabledd, a chroesawu plant a phobl ifanc sydd ag anableddau dysgu fel dinasyddion cyfartal yn ein hysgolion, ein gweithleoedd a'n cymunedau.

*(Adroddiad Peidiwch â Dal yn Ôl, tudalen 5, Comisiynydd Plant Cymru)*

# Y PROSIECT

Cafodd yr ymchwil ei ariannu gan Raglen Drawsnewid Anableddau Dysgu Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd ac fe'i gwnaed yn 2020-21 ar ran Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru. Roedd gweithgareddau'n cael eu goruchwylio gan grŵp llywio a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Rhaglen Drawsnewid ADY, Conwy Connect, rhieni/gofalwyr a Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd.

Roedd yr ymchwil yn defnyddio dulliau ansoddol a meintiol o gasglu a dadansoddi data gan fudd-ddeiliaid. Cafodd data am ddeilliannau ar ôl ysgol ac ar ôl addysg bellach ei gasglu gan dimau anableddau dysgu awdurdodau lleol, Gyrfa Cymru, ysgolion uwchradd arbenigol a sefydliadau addysg bellach, a'i ddadansoddi i ddarparu cipolwg ar gyrchfannau pontio pobl ifanc ag anableddau dysgu a oedd yn gadael ysgolion uwchradd arbenigol yn y rhanbarth.

Cafodd canfyddiadau o'r dadansoddiad data, ynghyd ag ymwybyddiaeth ac adnabyddiaeth o'r Ddeddf eu harchwilio mewn cyfweliadau ansoddol lled-strwythuredig ar draws y grwpiau canlynol:

- Pobl ifanc ag anableddau dysgu
- Rhieni
- Gweithwyr proffesiynol a darparwyr gwasanaeth, gan gynnwys ysgolion a cholegau, iechyd a gofal cymdeithasol
- Gyrfa Cymru

Cafodd cyfanswm o 86 o bobl eu cyfweld yn y prosiect, gan gynnwys 26 (30%) o bobl ifanc ag anableddau dysgu a 6 o rieni. Cynhaliwyd cyfweliadau ar-lein neu dros y ffôn a chafodd y sain ei recordio i wneud dadansoddiad ansoddol.


## Canfyddiadau allweddol

### Cyrchfannau ar ôl ysgol plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu


Mae'r data sydd ar gael gan Gyrfa Cymru o 2019 yn dangos bod y mwyafrif o ddysgwyr AAA, gan gynnwys y rhai hynny gydag anabledd dysgu ar draws addysg arbenigol ac addysg brif ffrwd, un ai yn aros ymlaen yn yr ysgol uwchradd tan Flwyddyn 14 neu'n pontio i addysg bellach, yn bennaf ym Mlwyddyn 11 neu Flwyddyn 13. Mae'r mwyafrif o bobl ifanc o ysgolion uwchradd arbennig yn pontio i golegau lleol, gyda lleiafrif yn symud ymlaen i ddarpariaeth coleg arbenigol. Ni chofnodwyd bod unrhyw bobl ifanc yn "mynd i gyflogaeth y tu allan i hyfforddiant seiliedig ar waith", ond cofnodwyd bod cyfran fach o bobl ifanc ym Mlwyddyn 13 ym mhob rhanbarth yn ddi-waith.

Mae'r data cyrchfan gan Gyrfa Cymru (2019) wedi'i ddangos yn y tablau isod.


**Siart 1: Data cyrchfan Blwyddyn 11: Dysgwyr AAA, Arolwg Blynyddol Gyrfa Cymru o Bobl Ifanc sydd wedi Gadael yr Ysgol, 2019**



**Siart 2: Data cyrchfan Blwyddyn 12: Dysgwyr AAA, Arolwg Blynyddol Gyrfa Cymru o Bobl Ifanc sydd wedi Gadael yr Ysgol, 2019**





**Siart 3: Data cyrchfan Blwyddyn 13: Dysgwyr AAA, Arolwg Blynyddol Gyrfa Cymru o Bobl Ifanc sydd wedi Gadael yr Ysgol, 2019**



Mae data gan dimau anableddau dysgu awdurdodau lleol ar draws y rhanbarth ar gyfer blwyddyn ysgol 2019/20 yn dangos mai'r prif gyrchfannau i bobl ifanc oedd cyfleoedd dydd a/neu waith, ac eithrio Sir y Fflint, lle cofnodwyd bod pump o bobl ifanc wedi symud i hyfforddiant galwedigaethol ac yn benodol, Prosiect Search. Dim ond un person ifanc a gofnodwyd eu bod wedi symud i gyflogaeth yn y rhanbarth cyfan. Yn y cyfamser, ychydig iawn o gyfleoedd lleol oedd i bobl ifanc ag anableddau dysgu dwys a niferus, a nodwyd bod hwn yn faes yr oedd angen ei wella.

Mae data a gafwyd gan dimau anableddau dysgu awdurdodau lleol i'w weld yn y tabl isod.

**Siart 4: Data cyrchfan ar ôl Addysg Bellach: pobl ifanc ag anableddau dysgu, Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol, 2019 i 2020**




Ni ellid dadansoddi'r dangosyddion cyrchfan a ddefnyddiwyd gan y ddau goleg a rannodd eu data, oherwydd gwahaniaethau o ran diffiniadau a methodoleg.

I gloi, mae'r data sydd ar gael am gyrchfannau ar ôl ysgol pobl ifanc ag anableddau dysgu yn gyfyngedig o ran cwmpas ac yn dameidiog ar draws y rhanbarth. Nid yw tueddiadau ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc fel pe baent yn cael eu monitro a'u dadansoddi gan Gyrfa Cymru a'r chwe awdurdod lleol yn yr un modd ag ar gyfer pobl ifanc eraill sydd mewn perygl o fod yn NEET (Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant).

# BARN BUDD-DDEILIAID AM LWYBRAU PRESENNOL A DISGWYLIADAU O RAN GWEITHREDU'R DDEDDF

Roedd prif ganfyddiadau'r cyfweliadau lled-strwythuredig yn amlygu'r canlynol:

- Mae'r llwybr pontio yn dameidiog i bobl ifanc ag anableddau dysgu yng Ngogledd Cymru. Mae wedi'i lunio o gyfres o 'fylchau atal', heb fawr o ystyriaeth i gyrchfannau a chanlyniadau hirdymor. Mae pobl ifanc yn aml wedi'u 'sianelu' i mewn i addysg bellach heb gynllun mwy hirdymor ar waith, a diffyg llwybr realistig i mewn i waith (cyflogedig) neu i ddilyn diddordebau neu ddyheadau eraill. Caiff hyn ei amlygu mewn dyfyniadau gan rai a gafodd eu cyfweld.

*'Addysg Bellach yw'r llwybr disgwyliedig i'w plant'* *(Teuluoedd)*

"Oni bai eich bod chi mewn coleg, dyna chi, mae hi ar ben" *(Gweithiwr proffesiynol a gafodd ei gyfweld)*

"Nid yw coleg i bawb, ond nid oes yna lwybr digon cryf os ydych yn dewis peidio â mynd i'r coleg". *(Gweithiwr proffesiynol a gafodd ei gyfweld)*

- Y consensws cyffredinol oedd y dylai cynllunio ar gyfer pontio fod â chanolbwynt cyfannol ar bob maes bywyd sy'n bwysig i bobl ifanc, gan gynnwys addysg bellach ymhlith pethau eraill. Dyma hefyd yw safbwynt Llywodraeth Cymru:

"Fe ddylai'r canlyniadau a fwriedir fod â ffocws cryf ar alluogi plant a phobl ifanc i symud tuag at ddyheadau hirdymor, boed hynny'n gyflogaeth neu'n addysg bellach neu uwch, byw'n annibynnol a/neu gyfranogiad cymunedol. I'r perwyl hwn, mae'n hanfodol ystyried beth sy'n bwysig i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc a beth maent eisiau ei gyflawni.... fe all Cynlluniau Datblygu Unigol hefyd gynnwys canlyniadau gyda ffocws ehangach, fel perthnasoedd cymdeithasol cadarnhaol a gwytnwch a sefydlogrwydd emosiynol" *(Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru, tudalen 278)*



Sacha, o Ynys Môn, a gymerodd ran yn nghyfweliadau'r prosiect, gyda'i gwaith celf

- Dim ond darpariaeth sydd wedi'i sefydlu ar gyfer pobl ag anghenion dysgu ychwanegol y gall y rhan fwyaf o bobl ifanc ag anableddau dysgu ei chael ac felly maent wedi'u gwahanu oddi wrth eu cyfoedion. Roedd llawer o'r bobl ifanc a theuluoedd a gafodd eu cyfweld eisiau dewisiadau mwy cynhwysol a dulliau mwy creadigol o wneud hyn gan y colegau lleol. Mae'r dyhead hwn wedi'i gefnogi gan adolygiad llenyddiaeth gan yr Asiantaeth Ewropeaidd ar gyfer anghenion arbennig ac addysg gynhwysol a welodd fod cysylltiad cryf rhwng addysg gynhwysol a chynhwysiant ym meysydd addysg, cyflogaeth a byw yn y gymuned.

Yn ôl yr adolygiad, mae mynychu lleoliadau addysg gynhwysol yn cynyddu'r posibiliadau ar gyfer cyfranogi a rhyngweithio gyda chyfoedion yn yr ysgol, cael cymwysterau academaidd a galwedigaethol, bod yn gyflogedig, bod yn annibynnol yn ariannol, ac yn y blaen. Ar yr un pryd, mae canfyddiadau'r ymchwil yn dangos bod mynychu lleoliadau ar wahân yn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol ac mae perthynas rhwng hyn a chymwysterau academaidd a galwedigaethol gwael, cyflogaeth mewn gweithdai gwarchodedig, dibyniaeth ariannol, llai o gyfleoedd i fyw yn annibynnol a rhwydweithiau cymdeithasol gwael ar ôl graddio. ***https://www.european-agency.org/sites/default/files/Evidence%20%E2%80%93%20A%20Review%20of%20the%20Literature_0.pdf***

Cwynodd un rhiant ei bod eisiau dewisiadau mwy cynhwysol ar gyfer ei mab, ac nid dim ond y rhai sydd wedi eu hanelu at bobl gydag anabledd dysgu.

- Y gwahaniaethau sylweddol o ran canfyddiad buddion ac anfanteision coleg preswyl arbenigol o'i gymharu â cholegau lleol ymhlith pobl ifanc a'u teuluoedd, a gweithwyr proffesiynol. Mae'r cyntaf o'r rhain yn tueddu i orbwysleisio nodweddion cadarnhaol addysg coleg preswyl, tra bod gweithwyr proffesiynol yn edrych ar heriau mwy hirdymor (e.e. y camau nesaf ar ôl coleg). Mae hyn yn aml yn arwain at ddisgwyliadau uwch gan deuluoedd a phwysau ar awdurdodau lleol. Fodd bynnag, bydd y Ddeddf newydd yn darparu cyfle i fudd-ddeiliaid lleol weithio'n agosach gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion pobl ifanc, gan gynnwys rhai ag anghenion mwy cymhleth.

“Y ddwy flynedd orau o fy mywyd... Fe wnaeth Derwen roi hyder i mi a fy helpu i gredu yn fy ngallu fy hun”

*(Person ifanc a gyfwelwyd ar gyfer ymchwil)*

- Fe gafodd yr angen i wella'r cynnig lleol ôl-16 i bobl ifanc ag anghenion mwy cymhleth ei godi gan fwyafrif y budd-ddeiliaid. Gwelwyd enghreifftiau o arloesedd yng Nghonwy ac mewn ardaloedd eraill o Gymru, ond mae'r cynnig yn dameidiog gan fwyaf. Y mater cysylltiedig yw fod yn y rhanbarth ar hyn o bryd ddiffyg llety/cartrefi addas am oes i bobl gydag anableddau dysgu dwys a lluosog ac ymddygiad cymhleth sydd angen ymdriniaethau personol. Mae hyn yn golygu o bosib' y bydd y bobl ifanc sydd â'r anghenion hyn yn cael eu 'lleoli' mewn lleoliadau y tu allan i'r ardal/y tu allan i'r sir a/neu goleg preswyl.
- Mae lleoliad mewn coleg preswyl yn parhau i gyfrif fel 'bwlch atal' er hynny, ac felly mae'n bwysig edrych ar anghenion llety fel rhan o gynllunio pontio o ysgol uwchradd arbenigol ochr yn ochr â meysydd eraill bywyd fel yr amlygwyd eisoes.

> *Fel ddywedodd un unigolyn a gafodd ei gyfweld* – "Po fwyaf cymhleth yw eich anghenion, y mwyaf cyfyngedig yw'r dewisiadau."

- Daeth angen clir i godi ymwybyddiaeth a pharatoi i'r amlwg o ran deall goblygiadau'r Ddeddf ar gyfer rolau a chyfrifoldebau. Mae hyn yn ymddangos yn rhywbeth sydd ei angen ar frys ar gyfer staff y rheng flaen a staff mewn ysgolion uwchradd arbenigol a fydd yn allweddol o ran ei gyflawni.
- Ychydig o wybodaeth am y 'Ddeddf' oedd gan deuluoedd a gafodd eu cyfweld, neu ddim gwybodaeth o gwbl, a oedd yn amlygu'r angen i wneud mwy i ymgysylltu â theuluoedd a darparu gwybodaeth iddynt sy'n hawdd ei deall ac yn hygyrch.

Galwodd un rhiant am i bobl ifanc gael eu haddysgu ynglŷn â'r Ddeddf newydd gan nodi "fe ddylent gael eu cynnwys a dylent wybod eu hawliau" a holodd sut a pha wybodaeth y mae ysgolion yn ei rhannu gyda phobl ifanc am y newidiadau a fyddai'n dod yn ei sgil.

- Roedd disgwyliadau cadarnhaol wedi'u mynegi gan bobl oedd â rhywfaint o wybodaeth am y Ddeddf, o ran canolbwyntio mwy ar anghenion a dymuniadau'r person ifanc yn y broses bontio a chynllunio ar gyfer cyrchfannau ar ôl yr ysgol, gan gynnwys prentisiaethau, cyflogaeth, a chyfleoedd dydd ystyrlon sy'n briodol i oedran. Mae Prosiect Search a'r cynllun peilot parhaus sy'n cynnig prentisiaeth â chefnogaeth gan Sefydliad Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn gam addawol i'r cyfeiriad hwn; er hynny, mae'n bwysig eu bod yn hygyrch i bobl ag anghenion mwy cymhleth a'u bod yn rhan o set ehangach o ddewisiadau sydd ar gael i gefnogi llwybrau i gyflogaeth.
- Roedd amryw bryderon am weithredu hyn oll, yn enwedig cyllid a chyfrifoldebau ariannol ar gyfer addysg ôl-16, adnoddau, risg o wahaniaeth gweinyddol ar draws awdurdodau lleol, ac ansicrwydd o ran dyfodol cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd annibynnol (a ddarperir gan Gyrfa Cymru ar hyn o bryd). Mae'n bwysig bod y system newydd yn hawdd ei defnyddio, a bod rhagor o ddewisiadau a chyfleoedd ar gael i bobl ifanc gan gynnwys rhai ag anghenion cymhleth, y tu hwnt i ganolbwyntio ar addysg bellach yn unig.
- Ychydig o dystiolaeth a gafwyd o'r ymchwil o bobl ifanc ag anableddau dysgu yn cael mynediad at eiriolaeth annibynnol neu hunan-eiriolaeth i'w cefnogi i fod â llais cryfach a rhagor o reolaeth wrth gynllunio ar gyfer pontio.

Pan nad yw blodyn yn blodeuo, mae angen newid yr amgylchedd mae'n tyfu ynddo, nid y blodyn *(Alexander den Hiejer)*

# ARGYMHELLION

Mae'r adroddiad yn cynnig 18 o argymhellion sydd wedi'u hanelu at amrywiaeth eang o fudd-deiliaid yn y rhanbarth, gan gynnwys pobl ifanc ag anableddau dysgu a'u teuluoedd, awdurdodau lleol, ysgolion cynradd ac uwchradd, colegau addysg bellach, Gyrfa Cymru, y Bwrdd Iechyd, Gwasanaethau Eiriolaeth Gogledd Cymru, Pobl yn Gyntaf Cymru, partneriaid y trydydd sector, a Llywodraeth Cymru.

**Allwedd**

**Tymor Byr = mae modd eu cyflawni o fewn blwyddyn**

**Tymor Canolig = mae modd eu cyflawni o fewn 2 i 3 blynedd**

**Tymor Hir = mae modd eu cyflawni o fewn pum mlynedd**

### Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru

| Argymhelliad | Partner Arweiniol | Eraill | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 1. Sicrhau bod staff rheng flaen wedi eu paratoi yn ddigonol ar gyfer gweithredu'r Ddeddf. | Arweinwyr Awdurdod Lleol a BIPBC ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu. | Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu<br>Rhaglen Drawsnewid ADY<br>Ysgolion Uwchradd Arbenigol/Ysgolion Uwchradd ag unedau arbennig | Tymor Byr |
| 2. Archwilio'r achos busnes dros ddyblygu ac uwchraddio'r ymagweddau lleol a weithredir yng Nghonwy a Cheredigion ar gyfer pobl ifanc gydag anableddau dysgu dwys a lluosog neu anghenion cymhleth ar draws Gogledd Cymru. | Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru | Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu<br>Sefydliadau Addysg Bellach Lleol | Tymor Canolig |

| Argymhelliad | Partner Arweiniol | Eraill | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 3. Fe ddylai Awdurdodau Lleol adolygu eu polisïau teithio, yn arbennig yn ardaloedd mwy gwledig Gogledd Cymru a sicrhau bod gan bobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig gyfleoedd i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder i ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn annibynnol. | Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru | Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu | Tymor Byr |
| 4. Dylai colegau addysg bellach lleol archwilio cyfleoedd a dulliau o gynnwys mwy o bobl ifanc gydag anableddau dysgu o fewn cyrsiau prif ffrwd wedi eu seilio ar eu dyheadau o ran gyrfa, er enghraifft drwy ddarparu cymorthyddion addysgu arbenigol a mentoriaid. | Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru | Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu<br><br>Sefydliadau Addysg Bellach Lleol | Tymor Canolig i Hir |
| 5. Sefydlu fforwm cyngor a chefnogaeth ranbarthol a arweinir gan gyfoedion ar gyfer teuluoedd a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol sydd ar fin cyrraedd y cyfnod pontio neu sydd yng nghanol y cyfnod pontio o ysgol uwchradd. | Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru | Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu<br><br>Gwasanaethau Eirioli Gogledd Cymru, Pobl yn Gyntaf Cymru a theuluoedd/ gofalwyr | Tymor Byr i Ganolig |
| 6. Cyd-gynhyrchu canllawiau a meini prawf i helpu'r holl fudd-ddeiliaid i ddeall pan mai darpariaeth coleg arbenigol yw'r dewis gorau mewn gwirionedd i fodloni anghenion datblygu unigol pobl ifanc ag anableddau dysgu. | Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru | Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu<br><br>Ysgolion Uwchradd Arbenigol<br><br>Sefydliadau Addysg Bellach<br><br>Gyrfa Cymru | Tymor Byr i Ganolig |

**Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu ar ran Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu**

| Argymhelliad | Partner Arweiniol | Eraill | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 1. Datblygu adnodd cynllunio gyrfa ar gyfer pobl ifanc gydag anableddau dysgu o fewn addysg uwchradd arbenigol i godi dyheadau ac ymwybyddiaeth o ddewisiadau cyflogaeth. | Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu/ Ffrwd Waith Cyflogaeth a Phontio | Ysgolion Uwchradd Arbenigol<br>Ysgolion Uwchradd ag unedau arbennig<br>Gyrfa Cymru<br>Gwasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol | Tymor Byr i Ganolig |
| 2. Cefnogi datblygu gwasanaeth hyfforddiant swyddi cenedlaethol sy'n defnyddio arbenigedd darparwyr cynhenid cyflogaeth a gefnogir. | Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu/ Ffrwd Waith Cyflogaeth a Phontio | Llywodraeth Cymru<br>Grŵp Gweithredu Strategaeth Cyflogaeth Gogledd Cymru | Medium to Long Term |
| 3. Cyd-gynhyrchu 'cynnig cyflogaeth lleol' ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu i gefnogi datblygiad i waith cyflogedig. | Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu/ Ffrwd Waith Cyflogaeth a ffrwd waith Pontio | Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu | Tymor Byr i Ganolig |
| 4. Archwilio'r rôl y gallai technoleg ei chwarae i gefnogi annibyniaeth pobl ifanc yn ystod y cyfnod pontio a hefyd gyda materion fel teithio annibynnol a diogelwch personol. | Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu/ Ffrwd Waith Pontio a Thechnoleg Gynorthwyol | Ysgolion Uwchradd Arbenigol<br>Sefydliadau Addysg Bellach lleol ac arbenigol<br>Awdurdodau Lleol | Tymor Byr |
| 5. Gwella argaeledd a mynediad i gyngor a chanllawiau annibynnol a diduedd yn ymwneud â dewisiadau ôl-ysgol a chyfleoedd ar gyfer pobl ifanc ag anableddau. | Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu/ Ffrwd Waith Pontio, Cyflogaeth a Chymunedau | Gwasanaethau Eiriolaeth Gogledd Cymru<br>Pobl yn Gyntaf Cymru<br>Awdurdodau Lleol<br>Gyrfa Cymru | Tymor Byr i Ganolig |

## ALN Transformation Programme

| Argymhelliad | Partner Arweiniol | Eraill | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 1. Defnyddio'r Cynllun Datblygu Unigol fel adnodd, sicrhau bod ystod ehangach o feysydd bywyd yn cael eu hystyried wrth gynllunio pontio o ysgolion uwchradd arbenigol. | Trawsnewid ADY | Ysgolion uwchradd prif ffrwd ac arbenigol | Tymor Byr i Ganolig |
| 2. Gwella cofnodi ac olrhain cyrchfannau pobl ifanc ar ddau bwynt pontio allweddol: Blwyddyn 14 ysgol uwchradd arbenigol ac wrth iddynt gwblhau addysg bellach. | Trawsnewid ADY | Ysgolion uwchradd prif ffrwd ac arbenigol<br>Sefydliadau Addysg Bellach lleol<br>Colegau Arbenigol Annibynnol | Tymor Byr i Ganolig |
| 3. Sicrhau bod pobl ifanc a'u teuluoedd yn ymwybodol ac yn cael gwybod am newidiadau statudol a ddaw yn sgil gweithredu'r Ddeddf. | Trawsnewid ADY | DECLO BIPBC<br>Gwasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol<br>Ysgolion uwchradd prif ffrwd ac arbenigol | Tymor Byr |
| 4. Fe ddylai awdurdodau lleol ddatblygu ffynonellau gwybodaeth hygyrch sydd wedi eu llunio ar y cyd (e.e. gwefannau) i helpu pobl ifanc a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod o gynllunio pontio. | Trawsnewid ADY | Awdurdodau Lleol<br>Pobl ifanc a theuluoedd a/neu ofalwyr<br>Gwasanaethau Eiriolaeth Gogledd Cymru | Tymor Byr i Ganolig |
| 5. Fe ddylai cefnogi pobl ifanc i gynnal a datblygu cyfeillgarwch a chysylltiadau cymdeithasol newydd gael ei ymgorffori fel elfen graidd o gynllunio pontio. | Trawsnewid ADY | Gwasanaethau anableddau dysgu'r Awdurdodau Lleol<br>Pobl ifanc a'u teuluoedd | Tymor Byr i Ganolig |

| Argymhelliad | Partner Arweiniol | Eraill | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 6. Gwella dealltwriaeth o sut mae diddordebau a dyheadau pobl ifanc yn ystod y cyfnod pontio yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth sydd ar gael mewn | Trawsnewid ADY | Awdurdodau Lleol<br>Ysgolion Uwchradd (pob un)<br>Sefydliadau Addysg Bellach Lleol<br>Gyrfa Cymru | Tymor Canolig i Hir |

## Llywodraeth Cymru

| Argymhelliad | Partner Arweiniol | Eraill | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 1. Dylai'r rhanbarth anelu i wella addysg gynhwysol ar gyfer pob plentyn gydag anableddau. Fe allai'r cam cyntaf fod gyda gweithredu hyfforddiant anabledd a chydraddoldeb ar draws holl ddarpariaeth yr ysgolion yng Ngogledd Cymru i frwydro yn erbyn rhagfarn cudd a chefnogi strategaethau cynhwysiant effeithiol. | Llywodraeth Cymru | Awdurdodau Lleol<br>Ysgolion Cynradd, Uwchradd a darpariaeth ysgol arall<br>Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch lleol<br>Hunaneiriolaeth | Tymor canolig yw'r cam cyntaf gyda phontio i system addysg gwbl gynhwysol yn y tymor hwy. |

# CYDNABYDDIAETH

Hoffai awduron yr adroddiad hwn ddiolch i aelodau'r grŵp llywio am eu cefnogaeth, eu cyngor arbenigol a'u cyfraniad drwy gydol y broses ymchwil. Hoffem hefyd ddiolch i bawb fu'n rhan o'r cyfweliadau am roi eu hamser a'u barn onest ar gyfer yr ymchwil yn ystod cyfnod heriol iawn yn sgil y pandemig. Rydym yn diolch yn arbennig i'r ysgolion uwchradd arbenigol a'r sefydliadau trydydd sector yng Ngogledd Cymru am ein helpu i siarad â phobl ifanc. Rydym ni'n credu bod hyn yn un o brif gryfderau'r ymchwil a'i fod yn caniatáu i'w lleisiau nhw fod wrth galon y canfyddiadau.

## Aelodau'r Grŵp Llywio

**Kathryn Whitfield,**
Arweinydd Tîm, Cyngor Sir Ddinbych, Tîm Anableddau Cymhleth Oedolion
(Cyn-reolwr Rhaglen, Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd)

**Angela Wilson,**
Rheolwr Rhaglen, Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd

**Kim Killow,**
Arweinydd Ffrwd Waith Integreiddio, Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd

**Stephanie Hall,**
Arweinydd Prosiect ADY, Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd

**Delyth Lloyd-Williams,**
Denbighshire Connect, Rhiant/Gofalwr

**Ffion Edwards-Roberts,**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Arweinydd Tîm, Tîm 0 i 25

**Rebecca Thompson,**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Arweinydd Trawsnewid ADY

**Matthew Collier,**
Swyddog Pontio Teuluol, Conwy Connect

## Manylion Cyswllt

**Kim Killow a Stephanie Hall**
Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd
Tŷ Dewi Sant
Parc Dewi Sant
Ewlo
CH5 3FF
https://gogleddcymrugydangilydd.org
E-bost: Learning.Disability.Transformation@flintshire.gov.uk